## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (WAUNFAWR I DDORGLWYD, CEREDIGION) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 50 mya ar y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 yn Waunfawr yng Ngheredigion sy'n ymestyn o bwynt 81 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Maeshendre hyd at bwynt 100 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â ffordd yr C1010 tuag at Benrhyn-coch.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 19 Hydref 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn yn ystod oriau agor arferol yn SPAR, Bow Street, Aberystwyth SY24 5AX ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 3BU, neu gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1537073.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 9 Tachwedd 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

## THE A487 TRUNK ROAD (WAUNFAWR TO DORGLWYD, CEREDIGION) (50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 50mph speed limit on that length of the A487 trunk road at Waunfawr in Ceredigion that extends from a point 81 metres east of its junction with Maeshendre to a point 100 metres north of its junction with the C1010 road towards Penrhyncoch.

During a period of 21 days from 19 October 2022, a copy of the proposed Order, plan and Statement of Reasons for making the Order may be inspected during normal opening hours at the SPAR, Bow Street, Aberystwyth SY24 5AX and the National Library of Wales Penglais Rd, Aberystwyth SY23 3BU, or can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference numbers qA1537073.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 9 November 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process of consulting we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government